# Cost mynd heb fwyd a chaledi yng Nghymru

## Ffeithiau a ffigurau allweddol o'n hadroddiad

Mae ein hadroddiad yn archwilio mynd heb fwyd a chaledi yng Nghymru ac ar draws y DU: maint y broblem, y costau i gymdeithas, a'r atebion sydd eu hangen.

Er mwyn dod â'r angen am fanciau bwyd i ben, mae angen i ni ddeall faint o bobl sydd eisoes yn torri'n ôl ar eitemau hanfodol – a'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o fynd heb yr hanfodion*.

Dyma'r hyn mae wynebu mynd heb fwyd a chaledi yn ei olygu.

**420,000**

**o bobl yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi yng Nghymru. Mae lefelau caledi a mynd heb fwyd ar eu huchaf erioed ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys 270,000 o oedolion o oedran gweithio, 38,000 o bensiynwyr a 110,000 o blant. Mae hyn yn gynnydd o 16% yn nifer y bobl sy'n wynebu mynd heb fwyd a chaledi ers 2002/03.**

**23,000**

**yn fwy o bobl ledled Cymru, yn ôl y rhagolygon, yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi erbyn 2026/27 os na fydd unrhyw newid.**

**Plant sy'n wynebu'r risg fwyaf o fynd heb fwyd a chaledi**




Mae un o bob chwe phlentyn (17%) yng Nghymru yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi – o gymharu ag 13% o'r holl bobl ledled Cymru.




Mae un o bob chwe pherson (17%) mewn teulu un rhiant yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi yng Nghymru




Mae un o bob pedwar (26%) sy'n byw gyda thri phlentyn neu fwy yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi yng Nghymru




Mae dau o bob pump (39%) o bobl mewn teuluoedd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ledled y DU yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi.

**Nid yw gwaith bob amser yn diogelu pobl rhag mynd heb fwyd a chaledi**

**210,000**

**o bobl mewn teuluoedd lle mae rhywun yn gweithio yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi ledled Cymru. Yng Nghymru, mae 28% o deuluoedd sy'n gweithio'n rhan-amser yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi.**

**230,000**

**o bobl yng Nghymru sy'n byw mewn teuluoedd anabl yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi nawr. Os ydych chi'n byw mewn teulu anabl (naill ai gydag oedolyn neu blentyn anabl), mae'n fwy tebygol y byddwch yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi na phe baech yn byw mewn teulu nad yw'n anabl (16% o gymharu ag 11%).**

*Mae ein prosiect Cost Mynd heb Fwyd a Chaledi wedi datblygu mesur i ddiffinio'r grŵp hwn: pobl y mae cyfanswm eu hadnoddau yn fwy na 25% yn is na llinell dlodi'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol. Arolwg Adnoddau Teuluoedd 2022/23

# Sut i leihau achosion o fynd heb fwyd a chaledi

Rydym yn canfod bod nifer o newidiadau nawdd cymdeithasol yn ysgogwyr uniongyrchol ac a allai fod yn gerrig milltir wrth sicrhau mai ein system nawdd cymdeithasol yw'r sylfaen ar gyfer lleihau achosion o fynd heb fwyd a chaledi. Heb y newidiadau hyn, disgwylir i'r gyfradd mynd heb fwyd a chaledi godi i 13.9% yn 2025/26.

| Lleihad yn nifer y bobl sy'n wynebu mynd heb fwyd a chaledi | Gostyngiad % | Y gyfradd mynd heb fwyd a chaledi ar ôl i'r polisi gael ei roi ar waith yn 2025/26 |
|---|---|---|
| **Cyflwyno'r Warant Hanfodion**<br>Sicrhau bod pawb yn cael swm gwarchodedig o gymorth yn rhan o Gredyd Cynhwysol i fforddio'r hanfodion. | | |
| Cymru 105,000 | -24% | 10.6% |
| **Hybu ac ymestyn Taliad Plant yr Alban**<br>Mae'r polisi hwn yn ystyried ymestyn Taliad Plant yr Alban i'r DU gyfan, ar lefel uwch o £40 yr wythnos. | | |
| Cymru 50,000 | -12% | 12.4% |
| **Dileu'r terfyn dau blentyn a'r cap budd-daliadau**<br>Gwrthdroi polisïau sy'n gwneud gostyngiadau i'r swm y dylai pobl ei gael mewn taliadau nawdd cymdeithasol | | |
| Cymru 25,000 | -6% | 13.1% |
| **Manteisio i'r eithaf ar incwm**<br>Sicrhau bod pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn yn cael yr holl gymorth nawdd cymdeithasol y mae hawl ganddyn nhw i'w gael. | | |
| Cymru 15,000 | -4% | 13.4% |

I gael rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau a chanfyddiadau pellach, ewch i: **trussell.org.uk/coh**